

# Excel - Uwch (Rhan-Amser, Ar-lein)

Mae'r cwrs undydd hwn yn datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau uwch mewn Microsoft Excel. Fe'i cynlluniwyd i'ch helpu i gynhyrchu, dadansoddi a chyflwyno taenlenni cymhleth yn hyderus gan ddefnyddio ystod eang o offer, swyddogaethau a thechnegau dadansoddi data. Mae'r cwrs yn cefnogi dysgwyr sy'n defnyddio Excel yn y gweithle ac sydd eisiau gwella cywirdeb, effeithlonrwydd a chyflwyniad proffesiynol, neu symud ymlaen i rolau digidol neu rolau sy'n gysylltiedig â data mwy arbenigol.

**Diwrnod ac amser:** Dydd Mercher, 9.00am i 5.00pm

**Dyddiad dechrau:** Sawl dyddiad ar gael

**Hyd:** Un Diwrnod

**Dull cyflwyno:** Ar-lein

## I bwy mae'r cwrs hwn?

- Oedolion sydd eisoes â gwybodaeth ymarferol dda o Microsoft Excel
- Dysgwyr sydd wedi cwblhau'r cwrs Excel Canolradd neu sydd â phrofiad cyfwerth
- Y rhai sy'n defnyddio taenlenni ar gyfer tasgau cymhleth neu anarferol yn y gwaith

## Yr hyn y byddwch yn ei ddysgu

- Sut i strwythuro, cyfuno a rheoli data taenlen cymhleth
- Sut i ddefnyddio fformiwlâu, swyddogaethau ac offer dadansoddi data uwch
- Sut i gyflwyno, fformatio, archwilio a chyhoeddi gwybodaeth taenlenni yn effeithiol

Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn gallu creu, dadansoddi a chyflwyno taenlenni cymhleth yn hyderus i fodloni gofynion proffesiynol a gofynion y gweithle.

## Gofynion Mynediad

- Dim gofynion mynediad ffurfiol
- Argymhellir eich bod wedi cwblhau Excel Canolradd neu fod gennych sgiliau Excel cryf eisoes.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cwrs hwn yn cefnogi dilyniant i rolau lle mae angen sgiliau taenlenni uwch, megis gweinyddiaeth, cyllid, trin data, cymorth busnes a rolau prosiect. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cwrs hwn i gryfhau eich sgiliau digidol ar gyfer datblygu gyrfa neu hyfforddiant arbenigol pellach mewn TG neu ddata.

Coleg Afan  
Coleg Bannau Brycheiniog  
Academi Chweraeon Llandarcy  
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg  
Coleg Castell-nedd  
Coleg Y Drenewydd  
Coleg Pontardawe  
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College  
Brecon Beacons College  
Llandarcy Academy of Sport  
Maesteg Construction Centre of Excellence  
Neath College  
Newtown College  
Pontardawe College  
Swansea Construction Centre





## Modiwlau'r cwrs

- Mewnbynnu, golygu a threfnu data taenlenni cymhleth
- Defnyddio fformiwlâu, swyddogaethau ac offer rhagweld uwch
- Dadansoddi a dehongli data gan ddefnyddio offer taenlenni
- Creu a fformatio siartiau a graffiau
- Cynllun tudalennau, argraffu a chyhoeddi taenlenni
- Archwilio, gwirio a chywiro gwallau taenlenni

## Asesiad

- Asesiad mewnol drwy dasgau rheoledig
- Cynhyrchu portffolio o dystiolaeth sy'n dangos sgiliau taenlenni uwch

## Costau Ychwanegol

Dim costau ychwanegol

## DULL ASTUDIO

SC

## LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

## HYD Y CWRS

Undydd

## FFIOEDD

25/26 fees: £30

Coleg Afan  
Coleg Bannau Brycheiniog  
Academi Chweraeon Llandarcy  
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg  
Coleg Castell-nedd  
Coleg Y Drenewydd  
Coleg Pontardawe  
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College  
Brecon Beacons College  
Llandarcy Academy of Sport  
Maesteg Construction Centre of Excellence  
Neath College  
Newtown College  
Pontardawe College  
Swansea Construction Centre

